**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2009**

**Rhoi'r diweddaraf am yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r cysylltiadau â'r cynllun Gwella a chynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1** Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub am hynt yr ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus dros fisoedd yr haf, a'i estyniad hyd at ddiwedd Medi.

**2** Esbonio pryd y caiff canfyddiadau'r ymgynghoriad eu cyflwyno, a sut y bwriedir datblygu'r cynllun Gwella a chynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010/11.

## Y Cefndir

3 Mae'r aelodau'n ymwybodol fod ar yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd statudol i lunio naill ai Cynllun Lleihau Risg neu gynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg bob blwyddyn, ac i ymgynghori â'r cyhoedd am gyfnod o 12 wythnos dros yr haf.

4 Eleni, penderfynwyd defnyddio proses y Cynllun Lleihau Risg i ymgynghori ynghylch nifer o faterion strategol allweddol a allai beryglu gallu'r Gwasanaeth i gyflawni ei brif amcanion, sef gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

5 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, cafodd y ddogfen ymgynghorol ddrafft ei chymeradwyo gan yr awdurdod, a'i chyhoeddi ar 15fed Mehefin 2009. Derbyniodd sylw da yn y wasg leol, a bu

hynny o gymorth i gynyddu nifer yr ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt gysylltiad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

6 Y drafferth gydag ymgynghori dros fisoedd Gorffennaf ac Awst yw mai prin yw'r cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen gan fod pobl ar eu gwyliau, ac ni chaiff cyfarfodydd cyhoeddus eu cynnal. Gan ein bod yn dymuno derbyn cymaint o safbwyntiau ag oedd modd, fe wnaethom ni drafod â Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru y cynnig i ymestyn yr ymgynghoriad hyd at ddiwedd Medi 2009. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i hyn.

7 Felly, y bwriad yw y dylem barhau i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad trwy gyfrwng cyfarfodydd lleol megis Gwarchod Cymdogaeth a chyfarfodydd heddlu cymunedol. Mae'r Dirprwy Brif Swyddog wedi cyflwyno'r ddogfen i uwch dimau rheoli Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, a phwyllgor craffu Conwy, a cheisir cael dyddiadau gyda'r tri Chyngor arall yn y Gogledd.

8 Argymhellir y dylid cyflwyno canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori hwn i gyfarfod nesaf gweithgor y Cynllun Lleihau Risg sydd wedi eu ailgynnull, ac iddynt hwy wneud argymhellion ynglŷn â'r 4 mater strategol i'r Panel Gweithredol.

9 Yn y cyfamser, mae'r cynllun Gwella wrthi'n cael ei lunio, a bydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd yn ymgorffori'r materion hynny y tynnwyd sylw atynt yn yr Asesiad Risg ar y Cyd, a bydd yn cynnwys cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010-11. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn seiliedig ar gynigion a gymeradwywyd eisoes wedi ymgynghori yn eu cylch, ond sydd heb gael eu gweithredu.

## Argymhellion

10 Bod yr Aelodau'n:
- (i) nodi fod y broses ymgynghori wedi ei ymestyn;
- (ii) cymeradwyo'r cynnig i gyfeirio canlyniadau'r ymgynghoriad i weithgor y Cynllun Lleihau Risg sydd wedi ei ailgynnull;
- (iii) enwebu aelodau i weithgor y Cynllun Lleihau Risg sydd wedi ei ailgynnull.